# Cyngor Cymuned Ganllwyd.

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Ebrill 10fed 2019.

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng C.Edwards,Cyng G.Jones,Cyng G.Hughes,Cyng P.Jenkins,

Cyng C.Dixon.

**Ymddiheuriadau**

Cyng S.Roberts.

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 13eg Mawrth 2019.**

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Edwards yn cael ei eilio gan Cyng Morris.

**Materion yn codi-nid ar yr agenda.**

**Ymgynghoriad cyhoeddus-hedfan isel.**

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu i gynghorwyr.

Bydd y cyngor yn rhoi copi o'r canlyniadau ar y wefan ac yn monitro'r sefyllfa.

Os oes gan unrhyw aelod o'r cyhoedd unrhyw sylwadau ar y mater hwn, fe'u hanogir i gysylltu â chynghorydd lleol

**Toiled Ganllwyd**-Bydd gwaith uwch raddio'r toiled cyhoeddus yn Ganllwyd yn cymeryd lle rhwng yr 8fed Ebrill a Mai 9fed 2019.

Nid oes ddim manylion ynglyn a chostau'r priosiect.

**Ysgol Gynradd Ganllwyd.**

Adroddodd Cyng Dixon fod Rhybudd Cyhoeddus yn y Cambrian News (4.4.19) yn ymwneud a pherchnogaeth yr Ysgol a hawliau'r Cyngor Sir i werthu y safle os nad oedd unrhyw un a hawliad ar dir yr ysgol yn dod ymlaen cyn y 12.7.2019. Nodwyd mai y diweddar Romer Williams o Ddolmelynllyn, Ganllwyd sydd i lawr fel y perchenog mwyaf diweddar. Ar ol trafodaeth nodwyd y canlynol; Mae'n debyg fod dogfen gyfreithiol wedi ei awdurdodi gan Romer Williams yn nodi fod y tir y

mae'r ysgol wedi ei adeiladu arno i'w roddi i'r gymuned ar gyfer pwrpas addysgiadol a phe bai y pwrpas yn dod i ben ar y safle, dylai y tir gael ei drosi yn ol i'r ystad. Mae'r Cyng Jenkins am ddarganfod ble mae y ddogfen wreiddiol. Yn ei rol fel Cynghorydd Sir mae Cyng Jenkins wedi gofyn am Adolygiad Barnwrol i weld os oes arian o unrhyw werthiant o'r ysgol yn medru cael eu defnyddio er mwyn y gymuned neu os y gall y safle gael ei ddefnyddio fel cyfleuster addysgiadol. Y mater i'w drafod eto yn y cyfarfod nesaf pan y bydd mwy o fanylion i law.

**Cynghorydd Sir.**

Dim ychwanegol i beth gafodd ei drafod ynglyn a'r Ysgol a'r Biniau Halen.

**Biniau halen.**

Yn dilyn cyfarfod rhwng Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, Y Cyng Jenkins a'r Clerc ar y 22ain o Fawrth nodwyd fel a ganlyn

- Bydd pob Bin Halen yn gost o £46 i'w ail lenwi a bydd adolygiad arall yn Ebrill 2020.
- Mae 11 ffordd statudol ym Meirionnydd i'w graeanu os yw y tymheredd yn disgyn o dan 4 c. Yr A470 yw yr unig ffordd yn ardal yr Ganllwyd. Pan fydd y tymheredd o dan 4c am fwy na 36 awr bydd y loriau graeanu yn cael eu danfon ar ffyrdd eraill oddiallan i'r 11 statudol.
- Mae'r Cyngor Cymuned am benderfynu ar ba ffyrdd yn ardal y Ganllwyd sydd angen eu graeanu.
- Bydd y Cyngor Cymunedol yn derbyn map yn dangos gwybodaeth ar safle pob bin halen a bydd gan bob bin gyfeirnod arbennig. Bydd y cyfeirnod hwn yn cael ei ddefnyddio os bydd y bin angen ei ail llewni.
- Caiff y Cyngor Cymuned symud y biniau o'r safloedd presennol
- Bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned gymeryd cyfrifoldeb tymor hir am y biniau a phryd i'w hail lenwi.

Ar ol trafodaeth penderfynodd y Cyngor aros nes bydd y map a'r wybodaeth wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd ond mae'n amlwg fod rhaid gwneud cynlluniau cyllido ar gyfer ail lenwi y biniau gyda halen. Pan fydd y safleoedd ar gyfer y biniau wedi ei penderfynu bydd y map yn dangos y wybodaeth yn cael ei arddangos ar Wefan y Cyngor.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc Mawrth 2019

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£4817.47** |
| | |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Rhoddion** | **£700.00** |
| **Ad daliad trydanwr R.Jones** | **£185.16** |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£5602.33** |

**Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor**

Taliadau wedi eu awdurdodi:

| | |
|---|---|
| E W Owen, Cyfrifydd | £192 |
| D Owen (Inc) | £28.39 |
| Un Llais Cymru | £29.00 |

**Awdit**

Bydd yr Awdit mewnol yn cael ei gynnal ym Mai 2019 a'r Awdit Allanol ym mis Gorffennaf 2019. Bydd y Clerc yn rhoi y hysbysiad statudol ar hysbysfyrddau y Pentref.

**Llythyrau ac Ebyst**

Cais cynllunio NP5/60/130C

Ar ôl dosbarthu'r cais hwn i gynghorwyr yn gynharach yn y mis, nid oedd unrhyw sylwadau pellach ar y mater.

**Unrhyw fater arall.**

Mae'r cyngor wedi derbyn nifer o gwynion am ddigwyddiadau pellach o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ac o amgylch maes parcio Ty'n y Groes.

Mae'r cwynion yn ychwanegol a ddigwyddiadau tebyg sydd wedi dod i sylw'r cyngor yn gynharach yn y flwyddyn.

Er bod y cyngor wedi siarad â'r heddlu a CNC am y mater nid yw'r sefyllfa wedi newid.

Clerc i drefnu cyfarfod hefo’r uchod i drafod y mater.